gweinidog argyhoeddedig fel hwn wedi'i godi yno ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma ran o'r Farwnad a 'sgrifennodd Melinddwr, Llansawel iddo:

Daeth i ben,
Ardderchog oes o ymdrech pur
Yn erbyn pechod – dros y gwir.
I'r Wynfa wen,
Ehedeg wnaeth ei enaid byw,
Fyth i gartrefu gyda Duw.

Gŵr mawr yn Israel ydoedd ef,
Yn meddu profiad helaeth iawn;
I'w aeddfed farn a'i synwyr cryf
Y telid sylw manwl llawn;
'Roedd fel tywysen aeddfed, lawn,
Yn barod i'r medelwr mawr,
Er cael rhyddhad o rwymau'r cnawd –
O boen a blinder daear lawr.[9]

**Y Parchedig James Rhys (Kilsby) Jones**

Ym Mhen-lan, Llanymddyfri y ganed James Rhys Jones ar Chwefror 4ydd, 1813. Mab ydoedd i'r Parchedig Rhys Jones, gweinidog Esgairdawe a Ffaldybrenin, 1818 – 1858, ac fe'i magwyd yn Erwion. Cafodd ei addysg fore yn Hen Gapel Esgairdawe. Ymddangosodd erthygl ddiddorol yn y *Dysgedydd* ym 1876, yn cynnwys ei atgofion am y cyfnod hwnnw. Rhydd i ni olwg ar fywyd yng nghefn gwlad a chipolwg ar grefydd yng Nghymru dros ganrif a hanner yn ôl. Ceir cynnwys yr erthygl honno mewn penodau eraill.

Pan oedd yn bymtheg oed, aeth i Ysgol Neuadd-lwyd lle bu am ddwy neu dair blynedd. Cafodd bob cefnogaeth gan ei rieni, ond, ysywaeth, collodd ei fam yr adeg honno. Fe'i claddwyd yng Nghrug-y-bar.

Yn ei atgofion, cyfeiria'r bachgen hwn at y drafferth a'r helbul a fu wrth ei baratoi i fynd i'r ysgol bellennig honno, gan gyfeirio at ei deimladau "anghyffredin" ef ei hun. Dyma'r hyn a ddywed am y daith ar y bore bythgofiadwy hwnnw:

> Cychwyn yn fore, a'r niwl yn ymdaenedig fel llenllian dros y cymoedd – tua Phrifysgol Bryn Eithin. Marchogwn i hen gaseg fach ddu o'r enw 'Whitefoot', a nhad un goch o'r enw 'Star'. Maent eu dwyoedd wedi mynd ers blynyddau bellach i ffordd holl bedwar-carnoliaid y ddaear. Yr oedd y flaenaf yn hynod am ddiogi nas

menid arno gan oruchwyliaeth gwialen, chwip, ac hyd yn oed yspardun. Rhyfedd mor ddidaro a dideimlad yr ymddangosai dan bob triniaeth. Yr oedd yr olaf yn nodedig am ei medr i agor clwydi â'i dannedd, ac am ei hymweliadau nosawl, lladradaidd a phorfeydd mwy gwelltog ei chymdogion. At hyn, ychwanegai yr arferiad o syrthio ar ei phenliniau wrth drafaelu, heb rybudd na rhagymadrodd, er mawr anghyfleustrwydd ac anghysur ei marchogwr. Ond yr oedd rhyw ddealltwriaeth rhyngddi hi a fy nhad, fel nad oedd efe byth yn cael yr un niwed oddiwrth ei phenliniadau, ac ni edrychid ar yr amgylchiad yn un goleu arall na rhyw dipyn o amrywiaeth diniwed yn y dull o farchogaeth.[10]

Cyffredin oedd ymddangosiad James Rhys a'i dad y bore hwnnw, gyda sachau'n cynnwys ymborth i'r cesyg, angenrheidiau a dillad i'r myfyriwr ifanc. Ar y ffordd, ceid cwmni brefiadau'r defaid a chyfarth cŵn y bugeiliaid, a gweld twr o ddynion yma ac acw'n torri mawn. Roedd pawb yn brysur, – y seiri coed a meini wrthi'n adeiladu Coleg Dewi Sant yn Llambed. Aent drwy ddyffryn prydferth Aeron, gan droi tuag at Gapel Neuadd-lwyd, tua dwy filltir cyn cyrraedd Aberaeron. Yna, cael cinio yng nghartre Dr. Phillips cyn mynd i weld yr ysgol enwog – bwthyn to gwellt a muriau pridd. Roedd yno ddwy ystafell, – yr un fechan i'r bechgyn hynaf a'r 'stafell fwyaf i'r athro a'r plant.

Cafodd y myfyriwr newydd lety gyda Dafydd a Martha, Rhydfach, yng nghwmni dau fyfyriwr arall. Roedd Dafydd yn dipyn o ddiwinydd ond cadw popeth yn lân a bod yn ddarbodus oedd bryd Martha. Rhannai'r tri myfyriwr yr un tân yn y gaeaf i arbed costau. Gwnaed cytundeb gyda Martha ei bod yn ddistaw pan fyddent wrth eu gwersi, neu câi ddirwy o ddimai bob tro y gwnai unrhyw sŵn. Ymdrechai, er hynny, i'w gwneud yn gysurus a'u trin fel plant iddi hi ei hun.

Digon amherffaith oedd . . . Ysgol Neuaddlwyd ar gyfer cyfrannu gwybodaeth. Nid oedd hanner digon o ddodrefn yn y tŷ, a braidd dim offer. Nid oedd cymaint a darlunlen yn yr ysgoldy, ac ni wyddai'r ysgolheigion ddim am ddaearyddiaeth. Nid oedd dim llyfrau yn gyrhaeddadwy i'r rhai a hoffent ddarllen, a braidd dim cyfleusderau i gyrhaedd y wybodaeth o'r iaith Saesneg.[11]

Gan fod y bechgyn yn lletya mewn gwahanol gartrefi, ni cheid cyfle i ddysgu moesau. Llwyddiant pennaf Dr. Phillips oedd dysgu egwyddorion gramadeg i'r bechgyn. Ni chyflwynid diwinyddiaeth iddynt. Medrai bechgyn tlawd fynd yno gan fod

yr ysgol a'r llety mor rhad. Ni cheid rheol am wisg na beth i'w fwyta – dim ond cadw corff ac enaid ynghyd. Byddai'r bechgyn oedd â'u bryd ar y weinidogaeth yn pregethu ymhell ar y Sul ac yn cerdded tua deugain milltir am dri neu bedwar swllt.

> Nid oedd modd braidd i un ysgol fod yn fwy cymysgedig . . . Yr oedd yno bob math o greaduriaid – Saeson, Gwyddelod a Chymry, wrth gwrs. Yr oedd yno blant a hogiau, a hen fechgyn barfog, ac fel rhyw fath o batriarch a phen drosom, pererin mewn gwth oedran, a alwem . . . yn dad-cu . . . âi trwy ei lith â'i lygaid yn gauad, a'i ben ar dro, ac yr oedd rhywbeth mor chwerthinus yn y difrifoldeb, gyda pha un y cyflawnai ei dasg, yr hwn a dorid gan bwl o beswch . . . Nid oedd diffyg anadl (asthma) yr hen walch ond mater cellwair gyda ni, yr hogiau anystyriol drygionus.[12]

Roedd gan Dr. Phillips bob cymhwyster i fod yn athro. Pe bai bachgen yn hiraethus wedi gadael cartre, âi ag ef allan hanner dydd i chwarae pêl gydag ef er mwyn iddo anghofio'i hun a chynefino â'r arfer o fod oddi cartref. Pe gwelai fod dawn neu dalent gan un o'r llanciau, medrai ei dihuno rhag ofn mai yswildod a'i cuddiai. Os na ellid cyffroi'r meddwl a'i roi ar waith yn ysgol Neuadd-lwyd, 'doedd fawr o obaith i hynny ddigwydd mewn un athrofa arall. Darllenid y *Carmarthen Journal* bob prynhawn Llun er mwyn trwytho'r Saesneg, a phrynhawn Iau rhoed yr holl amser i ddarllen Cymraeg.

> Darllenwr heb ei fath oedd Dr. Phillips. Cymerodd drafferth nid bychan i ddysgu ei fyfyrwyr i ddarllen Cymraeg yn gywir ac effeithiol . . . Mae yn hysbys i bawb a glywsant y Doctor yn darllen, mai nid bob dydd y clywid y fath ddarllenwr. Nid peth hawdd oedd rhoi bodlonrwydd iddo wrth ddarllen . . . Gellir dweyd pob gair heb wneuthur un camsyniad, ac eto fod ymhell oddiwrth fod yn ddarllenwr yn wir ystyr priodol y gair.[13]

Un o atgofion Kilsby am Ysgol Neuadd-lwyd oedd dyddiau difyrrus cynhaeaf gwair Dr. Phillips. Rhoddai ddau ddiwrnod o wyliau i'w ysgolheigion yr adeg honno a'u troi i ddefnyddio rhacanau a phigffyrch yn lle offer ysgolheigaidd. Ni fyddai llawer o awydd am waith ar y bechgyn, – cael tipyn o hwyl oedd eu dymuniad, yn enwedig yng nghefn yr athro. Gadawent y gwaith trwm i eraill, ond, pan ddeuai pryd bwyd byddent yn weddol agos i'w dyletswyddau:

> Nid ychydig oedd hi yn gostio i'r Doctor i giniawa haid fawr o greaduriaid gwancus . . . mawr oedd y sŵn a wnaent wrth leipiaw y sucan a'r llaeth.[14]

Wedi gadael Neuadd-lwyd, aeth James Rhys i Goleg Blackburn am gyfnod byr. Bu'n cadw ysgol yn Ffaldybrenin o 1833-1834 a dyma gofnod sy'n cyfeirio at ddigwyddiad anghyffredin yn hanes y plant:

> Pan osodwyd carreg sylfaen yr ail Dŷ Cwrdd (1833) yn Ffaldybrenin, aeth yr athro – Kilsby – a'r plant i "fod yn dystion o'r seremoni", a chyda gwialen gref, rhoddodd warrod i bob un (yn ysgafn i'r rhai ieuaf) fel y byddai yn help iddynt gofio.[15]

Bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin o 1835-1838. Ar ôl gorffen ei gwrs bu'n gweinidogaethu am chwe mis ym Machynlleth.

Yn Lloegr y bu ei ofalaethau am rai blynyddoedd wedi hynny:

| | |
|---|---|
| Frampton-on-Severn, | 1838-9 |
| Kilsby, swydd Northampton, | 1840-9 |
| Birmingham a Bolton | 1850-5 |

Wedi bod yn Kilsby y mabwysiadodd yr enw fel ei drydydd enw bedydd. Wrth yr enw hwnnw y cyfeirir ato hyd heddiw.


Daeth yn ôl i Gymru a bu'n weinidog yn Rhaeadr hyd 1860, pan gododd ar ei adain eto:-

| | |
|---|---|
| Tonbridge Chapel, Llundain | 1861-6 |
| Rhaeadr (yr ail waith) | 1867 |
| Caebach, Llandrindod | 1868-87 |
| Christ Church, Llandrindod | 1878-89 |

Bu farw ar ddydd ei ben blwydd, y 4ydd o Chwefror, 1889 ac yntau'n 76 mlwydd oed.

> Cyfrifid Kilsby yn un o gymeriadau hynotaf ei gyfnod, onid yr hynotaf oll. Dyn od, yng ngolwg ei feirniaid, hynod yng ngolwg ei edmygwyr. Y rheswm am yr arbenigrwydd oedd ei bersonoliaeth wreiddiol, ei wisg a'i ddull o fyw, ei arddull o fynegi'i feddwl.[16]

Nid oedd arferion a rheolau'n golygu dim iddo. Fe'u newidiai i gwrdd â'i ofynion ei hun. Er bod rhyw dynerwch yn perthyn iddo, gellid synhwyro fod dewrder yn un o'i nodweddion amlycaf hefyd. Daeth i enwogrwydd fel pregethwr dewr yn ystod yr un mlynedd ar hugain y bu'n weinidog yn Llandrindod. Gwelwyd ei gynulleidfaoedd yn eu dagrau gan rym ei argyhoeddiad. Profodd ei fod yn areithiwr digymar hefyd. Roedd ei ffraethineb yn ddigon i beri i'r utgyrn seinio. Yn nhaflen Cymanfa Orllewinol a gynhaliwyd yn Ffaldybrenin ym



*Y Parchedig J.R. Kilsby Jones*

Mehefin, 1906, cyfeiriodd cadeirydd y gynhadledd, Mr.T.F. Jones, Troed-y-bryn ato fel:

> y dyn nodedig a ffraethbert hwnnw, . . . yr hwn a adwaenid yn dda yn yr oes o'r blaen, yn rhannau helaeth o Gymru a Lloegr.

Gwnaeth Kilsby gyfraniad gwerthfawr i Lenyddiaeth Gymraeg pan olygodd weithiau cyflawn o farddoniaeth a rhyddiaith William Williams, Pantycelyn. Roedd Kilsby yn Gymro trwyadl. Credai fod y Gymraeg yn iawn yn ei lle, ond cyn dod ymlaen yn y byd, 'roedd yn rhaid cael Saesneg. Tybiai mai iaith emyn, pregeth ac eisteddfod oedd y Gymraeg. Meddai ar ddaliadau pendant. Roedd yn casáu pob math o dwyll, rhagrith ac ymffrost. Credai mai dyletswydd pob un yw bod yn onest ac yn naturiol bob amser.

Dyma englynion coffa iddo gan Gwydderig, lle gwelir llun ohono hefyd:

Llun cawr o hen Blwyf Llancrwys – ydyw hwn
Kilsby dal a chytbwys:
Gwagle i fyd ac eglwys
Oedd dwyn ei gorff hardd dan gwys.

O Erw-ion yn arweinydd – cododd,
Cadarn efengylydd;
Athraw gwlad a'i chenhadydd
Cywir doeth ar byncïau'r dydd.[17]

**Rhai a godwyd i'r Weinidogaeth yn ddiweddarach:**
**Y Parchedig D. Derwenydd Morgan**

Ganed David Derwenydd Morgan ym 1872 yng Ngwar-coed, fferm ym mhlwy Pencarreg. Dafydd, neu Deio a Sarah oedd ei rieni, yn ffermio tua 140 o erwau. Ardal ddiarffordd yw Esgairdawe ac yn ôl Derwenydd, 'lle da i fagu beirdd a chadnoed'. Roedd gan Dderwenydd ddau hanner brawd a hefyd hanner chwaer, sef Sali, mam D.J. Williams. Roedd ei ddau frawd, sef Jâms a Dan, yn ôl D.J. yn gymeriadau digon 'di-nôd a di-liw', ond daeth Dafydd i amlygrwydd drwy iddo adael cartref a mabwysiadu'r enw 'Derwenydd' iddo'i hun. Fe'i adwaenid yn ddiweddarach yn ei fywyd fel D. Derwenydd Morgan, M.P.S., Pencader – ac yn ôl D.J. eto, fel 'Americanwr, cemist, fet, pregethwr, nofelydd dirwestol', yn ogystal ag awdur nifer o gerddi a dramâu.

Yn ystod ei fachgendod, gweithiai ar y fferm, – codi'n fore, gweithio'n galed ym mhwys a gwres y dydd a mynd i'r gwely'n hwyr ac yn lluddedig. Ar y Sul, mynychai gapel Esgairdawe yn ogystal â'r cyrddau gweddi a gynhelid yng nghartrefi'r fro ar noson waith. Derbyniodd ei addysg fore yn yr Ysgol Fwrdd leol a hoffai sôn am brofiadau bore oes. Fe'u cyhoeddodd yn ddiweddarach yn ei fywyd.

Credai mai byd rhyfedd yw hwn a bod popeth yn cael ei rannu'n eitha anghyfartal rhwng bodau dynol, – rhai'n cael iechyd, eraill afiechyd; rhai hawddfyd, eraill adfyd. Pan oedd ef yn un ar ddeg oed, gwnaeth weithred ffôl y dioddefodd oddi wrthi bron drwy gydol ei oes:

> Ar ddiwrnod hyfryd o haf, a'r haul fel ffwrnes o dân yn y nen, a minnau'n hogyn iach, llawn nwyfiant, ac asbri, euthum i ymolch, ac yn chwys o bosibl ar y pryd, mewn nant ar odreu ein tir. Cefais anwyd difrifol. Effeithiodd mor fawr arnaf nes i mi gael clefyd yr Arennau . . . a hwnnw'n un arhosol, – "Chronic Disease". Newidiodd yr holl fyd i mi. Diflannodd y nwyf, yr hoen, a'r miri yn llwyr o'm bywyd . . . 'Doedd yna na swyn na rhamant i mi mewn dim. Yr oedd bywyd wedi myned yn faich, ac fel Job gynt yr oeddwn yn melltithio dydd fy ngenedigaeth . . . Gallwn fwyta fel cloddiwr, a theimlo mor newynnog ar ddiwedd pryd o fwyd ag ar ei ddechrau. Gallwn yfed y ffynnon yn sych, a theimlo yn sychedig wedyn . . . Gallwn weithio, ganol haf . . . heb wybod beth oedd colli dafn o chwys, a phe safwn ar fy nhraed am funud, a sefyll heb symud, byddwn yn syrthio mewn pangfa.[18]

Er iddo ymweld â nifer o feddygon ni chafodd yr un llesâd. Penderfynodd fod yn fferyllydd. Nid hawdd oedd gadael y wlad a swynion natur, ond gobeithiai yn ei galon y medrai, ryw ddydd, ddarganfod rhywbeth i wella'i ddolur. Nid felly y bu.

> er cymryd digon o foddion i godi'r marw yn fyw, pe bai'n bosibl i foddion wneuthur hynny, dderbyniais i yr un gronyn o leshad.[19]

Cynghorwyd ef i fynd am fordaith. Dewisodd yr Amerig – taith eithriadol bell yn y dyddiau hynny, a bore bythgofiadwy oedd hwnnw pan ffarweliodd â'i gartref. Roedd tristwch o'i gwmpas ymhobman. Synhwyrai Moss, y ci defaid a'r hen boni froc fod rhywbeth anarferol ar droed. Digon lleddf oedd nodau'r pistyll ger y drws hefyd, wrth ddisgyn ar y cerrig mân.

Hwyliodd o Lerpwl a chafodd daith ddigon anghysurus.

Daeth yn storm gynddeiriog ac wedi iddi ymlonyddu, dyheai pawb am wasanaeth crefyddol i ddiolch i'r Gwaredwr am eu hachub. Tystiai Derwenydd na theimlodd Dduw yn nes ato erioed na'r diwrnod hwnnw. Wedi cyrraedd y cyfandir, er yr holl garedigrwydd a gafodd, ni fedrai neb ei wella. Croesodd i'r gorllewin pell gan ailgydio yn ei waith fel fferyllydd. Er cystal yr hinsawdd yng Ngholorado, ni thyciai dim a bu'n amhosibl iddo barhau gyda'i waith. Drwy ryw ryfedd wyrth, gwelodd hysbyseb yn y Drych Americanaidd fod eisiau gweinidog ifanc yn nhalaith Kansas. Ymatebodd iddo a chredai mai llaw Duw a'i gwnaeth yn bosibl iddo gael galwad i'r eglwys honno. Bu'n pregethu yng nghapel Esgairdawe droeon ar ddechrau'r ganrif a derbyniodd lythyr oddi wrth y swyddogion yn ei gymeradwyo i waith yr Efengyl. Dyma gopi ohono:

> Esgairdawe Chapel, 23rd July, 1900.
> With best regards, we the undersigned do hereby certify that D. Derwenydd Morgan commenced preaching at the above Chapel.
> He is well known to us from his childhood with high recommendation, and in our opinion, a young person for the Church.
>
> Signed on behalf of the Chapel,
>
> Thomas Thomas, Deacon
> Thomas Williams, Deacon
> John Jones, Deacon[20]

Roedd llawer o Gymry yn y wlad, ac wedi pregethu ei bregeth gyntaf yn yr eglwys yn Kansas cafodd alwad unfrydol. Ordeiniwyd ef ar brynhawn Sul. Pregethwyd yn Gymraeg gan ddau weinidog – un yn rhoi siars i'r gweinidog a'r llall i'r eglwys, yn ôl yr arferiad yng Nghymru. Er hynny, 'roedd y cwestiynau a ofynnwyd iddo wedyn yn hollol wahanol, e.e. 'A ydych yn meddwl y dylai dyn gael bod yn aelod crefyddol os bydd yn yfed 'stout' i swper?' 'A ddylai dyn fod yn aelod crefyddol os byddai wedi curo y wraig?' Atebodd Derwenydd y cyfan mor ddoeth ag y medrai.

Yr arferiad yn yr eglwys oedd cynnal gwasanaeth Cymraeg yn y bore a'r prynhawn, a Saesneg oedd oedfa'r hwyr. Synnai'r gweinidog wrth ganfod ffyddlondeb ei aelodau. Teithiai rhai ohonynt bellter o ddeuddeg milltir ar draws y 'Prairie'. Golygfa anghyffredin i ni fyddai gweld yr holl gerbydau, a'r ceffylau

ynghlwm wrth byst o flaen y capel. Teimlai Derwenydd fod ei bregethau'n ddigon di-lun yn aml, ond câi'r gwrandawyr ryw foddhad wrth glywed yr Efengyl yn iaith eu mamau.

Mae'n debyg mai sefydliad newydd oedd y capel hwn. Yr anhawster mwyaf oedd claddu'r meirw. Y rheswm am hyn oedd cyflwr y ffyrdd, yn enwedig ar dywydd gwlyb neu adeg eira mawr. Ceid trafferth i gyrraedd y corff, cynnal gwasanaeth yno a dwyn y corff i'r gladdfa ar elorgerbyd a dynnid gan bedwar ceffyl. Teithiai pob pregethwr tlawd ar gefn poni. Felly Derwenydd. Oherwydd y drafferth a geid ambell waith, tybiai ef yr arbedid llawer pe bai pob claf yn cael ei ddwyn i gyffiniau'r gladdfa cyn marw!

Cafodd y gweinidog hwn y profiad o gyflawni gwaith cenhadol, yr hyn a ddisgwylid oddi wrth bob gweinidog sefydlog. Er mai gwaith anodd a pheryglus ydoedd, cafodd lawer o fwynhad.

> Mae rhyw swyn a rhamant a newydd-deb gyda'r gwaith cenhadol nas cewch chwi gyda'r un gwaith arall. 'Does yr un adeg pan ydych yn teimlo mor sicr o'r Arweiniad Dwyfol na phan fyddoch ynglŷn â gwaith cenhadol.[21]

Daeth i gysylltiad â'r Negroaid, yr Indiaid Cochion a'r 'Cowboys'. Gwelodd fod rhinweddau'n perthyn hyd yn oed i'r Negro.

Ymhen rhai blynyddoedd, dychwelodd i Gymru. Cyfaddefai fod 'rhyw ddylanwadau cudd yn ei dynnu'n ôl i'w hen gynefin'. Ailddechreuodd ar ei waith fel fferyllydd, a hynny ym Mhencader. Yna, cafodd ddau brofiad bendithiol. Ymunodd mewn priodas â merch ddymunol iawn a hefyd, drwy drugaredd, cafodd wared o'r clefyd annymunol hwnnw pan oedd wedi cyrraedd canol oed:

> Bu erioed y fath fendith, a chael ychydig bach o iechyd, pe dim ond ar derfyn oes.[22]

Fel fferyllydd, byddai'n tynnu dannedd, rhoi olew a moddion at wella anifeiliaid a phob math o bethau at wella pobl. Roedd wedi dioddef cymaint ei hun fel mai ei ddymuniad pennaf oedd ceisio rhoi adferiad iechyd i eraill, boed ddyn neu anifail.

Deuai Derwenydd i bregethu'n aml yng nghapel Esgairdawe wedi dychwelyd o'r Amerig. Gellid synhwyro ei fod yn gartrefol yn y pulpud hwn. Onid o'r fan hon y traddododd ei bregethau

cyntaf ar ddechrau'r ganrif? Tybed beth a âi drwy ei feddwl wrth gael ail gyfle i fyw profiadau dechrau'r daith. Symudai'n ôl ac ymlaen o un ochr i'r llall, wrth bregethu, gan chwarae â chadwyn aur ei oriawr boced a chyflwyno'i neges yn ddiddorol a diffuant. Mae testun un o'i bregethau, yn y cyfnod hwn, yn aros ar gof aelod hynaf y capel heddiw, sef Mary Anne George, Bryndafydd, a hithau'n ddeuddeg a phedwar ugain mlwydd oed. Dyma'r testun hwnnw:

> "Deliwch i ni y llwynogod, y llwynogod bychain, y rhai a ddifwynant y gwinllannoedd: canys y mae i'r gwinllannoedd egin grawnwin."
>
> Caniad Solomon, 2:15

Testun anarferol i bregethu arno ydyw. Diau iddo ei ddewis oherwydd iddo gofio'r colledion a achosai'r llwynogod ymhlith y praidd a'r cnydau pan oedd yn hogyn ifanc ar fferm Gwar-coed.

Pan bregethai Derwenydd yn yr ardal yn y cyfnod hwnnw, deuai ar ei feic, ar brynhawn Sadwrn, – o Bencader i Ryd-y-fallen Ganol at ei fam a'i frodyr. Felly, yr oedd yn fwy cyfleus i'w alwadau drannoeth. Byddai ei fam ac yntau'n sgwrsio wrth bryd bwyd ar ford fach o flaen y tân. Câi groeso tywysogaidd pan ddeuai ar ei dro. Gofalai ei fam fod yno ymenyn ffres ar y ford fach iddynt ill dau, ond hen ymenyn i'r lleill ar y bwrdd mawr. Onid oedd y mab hwn wedi dioddef selni enbyd ac wedi bod oddi cartref am flynyddoedd?

Roedd y ford fach wedi'i sicrhau wrth sgiw a chodid hi i fyny i'w chefn ar ôl gorffen bwyta. Diddorol fyddai gwrando ar yr ymddiddan. Dichon fod Derwenydd yn adrodd hanesion rhamantus a brawychus, efallai, am fywyd mewn gwlad mor fawr â'r Amerig a bod ei fam yn rhyfeddu, ond yn ceisio dilyn ac amgyffred y cyfan yn ei ffordd ddiymhongar, dawel ei hun. Ni chafodd hi'r cyfle i fynd ymhell iawn o'i milltir sgwâr – merch ydoedd i Jemi'r gof, a drigai yn Rhyd-y-fallen fach, tyddyn bychan ar odre tir Gwar-coed. Ymbriododd â thadcu D.J. Williams, sef Dafydd neu Deio Gwar-coed. Ail wraig ydoedd hi iddo, ac felly, llysfam i Sali, mam D.J. Williams.

Yn ei gyfnod, dywedir na chyhoeddodd yr un Cymro arall gynifer o lyfrau â Derwenydd. Dyma enwau rhai ohonynt: *'Darnau Doniol'*, *'Difyrrwr y Dorf'*, *'Trem yn Ôl neu Oes Gofion'*, *'If*

*Christ Came to Wales', 'The Tavern across the Street', 'Calennig y Plant'*, Dramâu – *'Llwybrau Anrhydedd', 'Torri'r Gadwyn'*, Comedïau – *'John a Mari', 'Dic Penderyn', 'Cymru am Byth', 'Rhoi'r byd yn ei le', 'Cythraul y Canu', 'Codi'r Clawdd'*.

Enillodd nifer o gadeiriau eisteddfodol. Bu'n arwain ac yn beirniadu. Roedd hefyd yn ddarlithydd poblogaidd. Traddododd ei ddarlith, 'Dringo'r Ysgol' dros gant o weithiau, yng Nghymru a'r Amerig. Bu'n gyfrwng i helpu llawer eglwys i dalu dyledion ac i bwrcasu organ i gynorthwyo'r gân. Ond ei hoff waith oedd pregethu. Dyma a ddywed am y grefft honno:

> Rhyw nwyd rhyfedd mewn dyn . . . Rhyw reidrwydd i bregethu'r Efengyl a chyfoeth Ei ras Ef. Diolch am fod y nwyd hon yn cymryd meddiant o rywrai o hyd . . . Cydiodd . . . yn forau ynof finnau. Ni wn pa un ai o'r ddaear neu o'r nef y daeth . . . Y cwestiwn sydd yn fy mlino heddiw – a wneuthum i ryw les drwy fy nhipyn pregethu, neu ynte a ydyw'r holl lafur wedi mynd yn ofer . . . Yr wyf wedi . . . ceisio hau yr had a gadael y cynnydd yn llaw Duw.[23]

Bu farw Derwenydd ym 1945 yn 73 mlwydd oed. Hunodd Mary, ei briod ym 1978 wedi cyrraedd yr oedran teg o 89. Claddwyd hwy ym mynwent capel Gwyddgrug, ger Pencader. Tipyn o ryfeddod yw'r ffaith fod un a godwyd yn Esgairdawe wedi gweinidogaethu mewn gwlad dramor, a hynny ar ddechrau'r ganrif hon. Diau i'w lafur ddwyn mymryn o ffrwyth ymysg y brodorion a thaflu ychydig oleuni yn nhywyll-leoedd y dalaith honno yn y gorllewin pell.

Dyma'r pennill sy'n gorffen ei hunangofiant:

> 'Nol crwydro'n hir ar ryfedd daith
> A cholli'r llwybr lawer gwaith,
> Mi âf yn ôl drwy gymorth ffydd
> I'r llaw ollyngais gynt yn rhydd.[24]

**Y Parchedigion John Washington Jones ac Evan Tawe Jones**

Tua diwedd y ganrif ddiwethaf, codwyd dau frawd yma i'r weinidogaeth, sef John Washington ac Evan Tawe. Meibion oeddynt i Thomas a Rachel Jones, Maesyrhenarth – fferm fechan ger Capel y Wern, tua hanner ffordd rhwng Esgairdawe a Rhydcymerau.

Ganed yr hynaf, sef John ym 1886. Derbyniodd ei addysg elfennol yn Ysgol Fwrdd Esgairdawe. Golygai hyn ei fod yn cerdded pum milltir bob dydd. Enillodd ysgoloriaeth i fynychu

Ysgol Sir Llandeilo, ac wedi bod yno am gyfnod symudodd i Ysgol Ramadeg Llanybydder, a gedwid gan Mr. S. Stephens, B.A., genedigol o Fydroilyn. Aeth oddi yno i Goleg Hyfforddi Athrawon ym Mhorth Tywyn a phenodwyd ef i'w swydd ddysgu gyntaf, yno yn Ysgol y Sir. Dyma'r adeg y cyfarfu â'i briod Myfanwy. Gadawodd ei swydd pan lwyddodd yn yr arholiad a'i galluogodd i gael ei dderbyn i Goleg Dewi Sant, Llambed, lle bu'n astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth gan ennill Gradd gydag Anrhydedd. Tra oedd yno, enillodd gymhwyster i fod yn Beiriannydd Deintyddol yn ogystal, wrth astudio yn yr hwyr a'r penwythnosau. Bu'r cymhwyster yma'n ddefnyddiol iawn iddo'n ddiweddarach pan ymfudodd i Batagonia. Parhaodd i astudio yn Llambed am ddwy flynedd ar gyfer Arholiad yr Urddiad Cyffredinol, – (G.O.E.) – 'God's Own Exam', yn ôl John.

Urddwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi a bu'n gurad yn Llantrisant cyn dod yn Offeiriad yng ngofalaeth Blaenafon. Yr adeg honno, ganwyd mab iddo ef a Myfanwy. Ym 1919, gadawodd y teulu Gymru gan ddarfod ei benodi ef yn Gaplan y Wladfa Gymreig, Chubut ym Mhatagonia, o dan Esgob Aviary gydag eglwysi yn Nhrelew a Dolovan. Pan oedd yno, sefydlodd Ysgol Ddyddiol a Phreswyl Tyddewi, gydag ugain o breswylwyr a deugain o ddisgyblion dyddiol, y rhai a ddeuai yno drwy farchogaeth. Mae saith cant o ddisgyblion yno heddiw. Peth arall a wnaeth John yno oedd cyfarwyddo Ymfudwyr Cymreig i groesi'r Andes i wledydd eraill. Gwnaeth lawer o arian drwy hynny. Medrai siarad Sbaeneg yn rhugl.

Er mwyn osgoi unrhyw gymysgwch, ychwanegodd John Jones yr enw 'Washington' fel ail enw ym 1920, er anrhydedd "el primer Presidente de Los Estactos Unictos". Tebyg fod nifer dda o John Jonesiaid yn y Wladfa fel sydd yng Nghymru. Galwodd ei unig fab yn Thomas Richard Washington a rhoddwyd yr enw Washington i'w dri mab yntau ac un wyres iddo yn ddiweddarach.

Ym 1926, dychwelodd y teulu i Gymru a rhoddodd John Washington hanes y Wladfa i'w gyfeillion yng nghapel Esgairdawe; bu Richard yn canu 'Anthem Genedlaethol yr Ariannin' yno ar dri achlysur. Urddwyd John yn Ficer Cwmafon. Collodd ei briod ym 1929. Anfonwyd Richard i Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf ac wedyn i Goleg Crist, Aberhonddu. Treuliodd wyth mlynedd yn Venezuela, yn

gweithio i 'Shell International' fel Cyfarwyddwr Addysg i saith ysgol, – 65 o Saeson, 40 o'r Iseldiroedd a 30 o Venezuela. Roedd wrth ei fodd yno.

Symudodd John Washington eto pan urddwyd ef yn Rheithor Eglwys y plwy, Eglwysilan, gyda phedair eglwys arall – Senghenydd, Abertridwr, Ffynnon Tâf a Nantgarw. Roedd ganddo bedwar curad i'w gynorthwyo. Bu yno am yn agos i ugain mlynedd. Bu farw ym 1973 yn 87 mlwydd oed. Claddwyd ef ym medd ei briod ym mynwent Eglwys Pembre. Mae'n rhyfeddach fyth fod un arall wedi gadael yr hen gwm a mentro i feysydd breision fel yr Ariannin.

**Y Parchedig Evan Tawe Jones**

Ym mis Rhagfyr 1891 y ganed Evan. Mynychodd yntau Ysgol Fwrdd Esgairdawe. Gadawodd ym 1905 gan feddwl aros gartref, ond dilynodd gamre John, ei frawd i Ysgol Ramadeg Llanybydder. Cyn hir, dechreuodd feddwl am bregethu a diau mai ei weinidog, y Parchedig D. Myddfai Thomas a'i hysgogodd i wneud y penderfyniad hwn. Yn rhyfedd iawn, cafodd y fraint o bregethu ei bregeth gyntaf wrth ddesg ysgol Esgairdawe, ym 1909, pan oedd y capel yn cael ei adnewyddu. Y Sul canlynol, Archdderwydd Cymru, sef Gwili, oedd yn pregethu yno!

Yn fuan ar ôl hyn, aeth Evan i Ysgol Gwili, (Watcyn Wyn cyn hynny) yn Rhydaman. Bu yno am dymor cyn mynd i ysgol yr Hen Goleg, Caerfyrddin a chael ei dderbyn yn ddiweddarach i Goleg y Presbyteriaid yn y dref honno. Profodd ei fod yn fyfyriwr disglair, yn meddu ar allu tra rhagorol mewn Groeg a Lladin, ond llai medrus ym Mathemateg. Pan oedd yn y coleg, gorfu iddo ef, ynghyd ag eraill ymuno â'r fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu yno am ddwy flynedd.

Yn y cyfnod hwn, 'roedd y Parchedig D. Myddfai Thomas yn gweinidogaethu yn Antioch a Phen-y-groes, Sir Benfro. Fel cyd-ddigwyddiad, bu Evan yn pregethu yn yr ardal honno rhwng 1914 a 1918. Mabwysiadodd ef ail enw bedydd iddo'i hun hefyd, sef Tawe – enw'r afon ym mro ei febyd. Tebyg mai dyma'r adeg y bu hynny.

Ar ôl gadael y coleg, dechreuodd ar ei yrfa fel gweinidog gyda'r Annibynwyr ym Mhentre-ty-gwyn, Cefnarthen a Bethesda, Llanymddyfri. Ni wyddys i sicrwydd faint o amser y bu yno, ond ei faes olaf fel gweinidog Annibynnol oedd

hwnnw yn ardal Tre-gŵyr, Gorllewin Morgannwg. Roedd yno ym 1926, pan ddychwelodd ei frawd, John Washington a'i deulu o Batagonia, ar ôl bod yno am saith mlynedd. Yna, bu cyfnewidiadau ym mywyd Evan Tawe. Penderfynodd ymuno â'r Eglwys yng Nghymru. Cyfaddefai na fyddai wedi dewis mynd i'r cyfeiriad hwn onibai iddo benderfynu, am yr ail dro, ddilyn ei frawd, John, a hefyd oherwydd apêl ficer Sgiwen ar y pryd. Aeth i Goleg Diwinyddol Llandaf, lle bu'n astudio am ddwy flynedd, gan lwyddo yn Arholiad yr Urddiad Cyffredinol (G.O.E.). Roedd Richard, ei nai, yn ddisgybl yn Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf ar yr un adeg.

Wedi gadael y coleg hwn, bu Evan Tawe yn gurad yn Eglwys y Santes Fair, Sgiwen. Pan ymadawodd ym 1931, cyflwynwyd cadair hardd iddo, ar yr hon y bu'n eistedd llawer hyd ddiwedd ei oes. Penodwyd ef yn gurad eglwysi Cwmllynfell a Brynaman yn ddiweddarach. Yna, bu'n 'Offeiriad mewn gofal' yng Nghapel Tygwydd, plwy Llandygwydd, ger Castell Newydd Emlyn am ddwy flynedd, cyn cael ei benodi'n ficer Llangwyryfon ym 1936, gydag eglwysi Lledrod a Llanilar yn ogystal. Ym 1937, trefnodd Ddosbarth Allanol yn Llangwyryfon o dan nawdd y Brifysgol. Cafodd gefnogaeth gref i'r fenter a bu'n llwyddiant mawr am rai blynyddoedd. Dyma ddarn a gyfansoddodd ar ddiwedd un tymor:

**Y Dosbarth Allanol**
**(Athro, y Parchg. D.R. Thomas, M.A.)**

Terfynwyd y Tymor, ca'dd pawb eu "digoni",
Pa beth ydyw dyn? oedd y testun eleni,
A chawsom fwynhad a ffrwd o oleuni,
Ynglŷn â'r ymennydd, egwyddor a theimlad,
Y nwydau a'r galon, cydwybod a chariad,
Y rhyw a'r ewyllys, y cof a chymeriad;
Mae'n werth cadw 'mlaen gyda'r Dosbarth Allanol
I glywed darlithwyr fel hyn o'r Brifysgol,
Dewch yma ag eraill i wrando y gwersi –
I gadw'r hen ardal i fynd ar i fyny,
Er mwyn Llangwyryfon a Sir Aberteifi.[25]

Gwasanaethodd fel ficer yn yr ardal hon am 34 o flynyddoedd a bu ei briod, Margaret Anne, yn gymar cywir iddo; ond, ysywaeth, bu farw yn y cyfnod hwn. Gadawodd yr ardal ym mis Awst, 1979 pan aeth i dreulio'i ymddeoliad yng nghartref Ilan, ei nai a'i deulu yn Eglwysilan, Morgannwg Ganol. Ym 1988,

dychwelodd i'r wlad at Richard, ei nai arall, i Langeler ger Llandysul. Yn ddiweddarach, symudwyd ef i Gartref Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn ac yntau'n 97 mlwydd oed.

Cyfeiriwyd eisoes at gapel y Wern. Codwyd yr addoldy hwn ar dir Clyn-byr pan ddaeth gwerinwyr tlawd, diwylliedig at ei gilydd. Agorwyd ef ar Awst 7fed, 1901. Ni pherthynai i un enwad. Âi tua hanner aelodau Esgairdawe a Rhydcymerau yno'n gyson. Llyfr Emynau'r Annibynwyr a ddefnyddid a bu Thomas Thomas, Maesteile, un o ddiaconiaid Esgairdawe yn arwain y gân yno drwy ddefnyddio 'pitch-fork'. Un arall a fu'n dechrau'r gân yno yn ail ddegawd y ganrif hon oedd Evan John Evans, Rhyd-y-fallen Isaf. Mynychai'r Ysgol Sul yno hefyd a chafodd gefnogaeth Evan Tawe ym more ei oes. Gwaetha'r modd, bu farw ym mlodau ei ddyddiau, o'r ffliw fawr ym 1918, ac yntau ond pymtheg oed.

Pan oedd yn ifanc, mynychai Evan Tawe bob oedfa yn nghapel y Wern, nad oedd ond ergyd carreg o'i gartref. Roedd ganddo le cynnes yn ei galon i'r fangre gysegredig hon a gaewyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dyma delyneg swynol a ganodd i'r capel bach:

CAPEL WERN

Ti gapel bach gerllaw y nant
Lle bu y plant yn myned
I'r Ysgol Sul a chwrdd yr hwyr,
Pwy ŵyr i ti ein dyled?

'Roedd holl aneddau'r Cwm yn llawn
A'u dawn mewn cyd-addoli,
Doi pawb o'r teulu yn ddigoll
Nes llanw'r oll o'r seti.

Ond erbyn hyn yn wag mae'r cwm
A llwm yw'th dynged dithau,
Dy ddrws yng nghlo a gwag dy flwch
A llwch yn llanw'r seddau.

Beth tybed ddaw o'r cwm a thi,
I mi sy'n broblem ddifri,
Ai plannu coed a'ch cuddio'n siwr
Neu lyn o ddŵr i'ch boddi.[26]

Ym 1980, cyhoeddodd gyfrol o emynau a barddoniaeth o dan y teitl, *'Tant y Galon'*, a'i chyflwyno i'w briod, Margaret Anne ac i'r meddygon Glyn ac Ann Rhys a'u plant, Ystradmeurig –

perthnasau iddo. Ceir nifer helaeth o gerddi yn y gyfrol, – llawer ohonynt yn addas fel adroddiadau i blant. Mae ambell un yn ymwneud ag ardal Esgairdawe, megis y gerdd i gyfarch ei rieni ar ddathlu eu priodas aur ar Fedi'r 26ain, 1933. Dyma'r tri phennill hynny:

Anodd canu fel yr hoffwn
  Heddiw i'r briodas hon,
Ni all geiriau byth fynegi
  Y teimladau dan fy mron;
Testun diolch mawr sy gennym
  Am gael dydd fel hyn i gwrdd –
Dydd priodas aur rhieni
  Gyda'r plant o gylch y bwrdd.

Bwrdd yn llawn o bob danteithion,
  Mam a thad yn hapus iawn,
Mae rhagluniaeth wedi gwenu
  Arnoch fore a phrynhawn;
Nodded nef fo yn yr hwyrddydd
  I chwi eto ar bob llaw
Nes cyrhaeddyd i'r gogoniant
  A mwyniannau'r ochor draw.

Diolch ichi am bob gofal,
  Am eich cariad pur di-drai,
Am eich serch a'ch cymorth parod –
  Mawr yw'n dyled i chi'ch dau;
Priodas dda a hir ddymunwn
  Heulwen beunydd uwch eich pen,
Pob llawenydd a thangnefedd
  Fyddo ichwi byth, Amen.[27]

Ceir penillion croeso hefyd i'r milwr, John Williams, Bryn-yr-ysgol, Esgairdawe, pan dychwelodd adref am dro adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyfeiria'r bardd at deimladau cynnes pobl y fro tuag at un a oedd yn ymladd dros ei wlad. Cynhelid cyngerdd i groesawu'r milwyr adref. Dyma ran o'r gerdd:

Mae croeso calon yn ein bro
I'r milwyr oll pan ddont ar dro
  I ardal Esgerdawe.
Mae'r bobl oll yn gwenu'n llon –
Mae pawb mewn hwyl ac ysgafn fron
  Yn rhoddi ar eu gore.

I chwi, hoff gyfaill, deued ffawd
A llwydd i wenu ar eich rhawd,
  A Duw wna'ch diogelu

Rhag unrhyw loes a chlwy a chur
Fel deloch eto cyn bo hir
  Yn ôl am byth i Gymru.[28]

Ceid gan y ficer ambell ddywediad bachog, ac yntau ar fin cyrraedd ei gan mlwydd oed. Dyma enghraifft:

> "Clywais ddyn wedi ymddeol yn dweud nad oedd ef yn gwneud dim nawr ond bwyta ac yfed ac ymladd â'r hen ddyn".

Beic oedd ganddo yntau fel pawb arall yn y dyddiau cynnar a hoffai adrodd yr englyn hwn:

Un heb drwydded na phedol – yn rhedeg
  Heb drydan na phetrol;
Od o chwim, heb dawch o'i ôl,
Ei ynni yw nerth dynol.
J.T.

Wrth holi Sais, rywdro, am y Ficerdy yn Llangwyryfon, dyma a ddywedodd am y ficer, – "Old Tawe is a man of God".

Fe grwydrodd y gŵr annwyl hwn lawer yn ystod ei yrfa weinidogaethol, ond ni roddai dim fwy o fwynhad iddo nag ymweld â Chapel a mynwent Esgairdawe, lle gorwedd ei rieni. Bellach, mae yntau'n huno'n y gro. Hunodd ar Awst 26ain, 1989 yng nghartref Glyn Nest wedi cyrraedd cant namyn dwy flwydd oed. Cafwyd gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Paul, Garden Village, Tre-gŵyr ar Fedi'r laf, a chladdwyd ef ym medd ei briod ym mynwent Pont-y-brenin.

**Y Parchedig J. Samuel Jones**

Ganed John Samuel yng Ngwar-coed, Esgairdawe ym mis Chwefror, 1916, yn fab i Thomas a Sarah Jones. Un o ffermydd mwya'r ardal yw Gwar-coed ac ni fu Sam yn fyr ei gymorth wrth ymwneud â'r gorchwylion beunyddiol. Fel ei frawd a'i chwiorydd, cafodd yntau ei drwytho i ymgymryd â phob agwedd ar amaethu o'i ddyddiau cynnar. Fe'i dysgwyd i sylweddoli fod natur yn onest iawn a bod cynnyrch y maes yn dibynnu ar y modd y caiff ei drin. Wrth ddilyn esiampl ei rieni, cymerai ddiddordeb yn ei waith, gan roi o'i orau bob amser.

Pan oedd tua phump oed, dechreuodd fynychu Ysgol y Cyngor, Esgairdawe. Roedd y daith yn bell i'w theithio ar droed, yn y cyfnod hwnnw, a'r rhiwiau'n hir a serth i goesau byrion i'w dringo. Er hynny, drwy gael cwmni a difyrrwch nifer o

gyfoedion, nid oedd y pellter yn cyfrif, ac eithrio pan fyddai'r hin yn stormus a gaeafol.

Mae'n amlwg iddo fanteisio'n helaeth ar ei addysg fore yn yr ysgol leol. Nid oedd llyfrau a diwylliant yn bethau dieithr iddo, oherwydd rhoed y lle dyladwy i feithrin hoffter at lenyddiaeth a barddoniaeth ar yr aelwyd gartref. Roedd ei dad yn fardd ac yn ennill gwobrwyau'n gyson mewn Eisteddfodau. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd ei gyfrol *Manion y Mynydd.* Profodd Sam ei fod yn un o ddisgyblion disgleiriaf yr ysgol. Ym 1928, enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Sir Llandeilo a dechreuodd fynychu'r ysgol honno ar Fedi'r 14eg. Bu yno am chwe mlynedd, yn ddisgybl gweithgar a llwyddiannus. O'r flwyddyn 1934 hyd 1938, bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, lle'r enillodd ei radd B.A. ym 1937. Yn dilyn hynny, bu yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf am flwyddyn a chael ei urddo yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar Fehefin 3ydd, 1939.

Dechreuodd ar ei yrfa weinidogaethol fel curad Eglwys Dewi Sant, Llandysul ym 1939. Bu yno'n weithgar a pharchus hyd 1942 pan symudodd i Eglwys Llandybïe, lle rhoddodd wasanaeth clodwiw hyd 1949. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n astudio ar gyfer y radd B.D., yr hon a enillodd ym 1945. Dyrchafwyd ef yn Ficer Eglwys Sant Luc, Llanllwni ym 1949 ac ychwanegwyd Eglwys Capel Dewi at yr ofalaeth ym 1965. Ymbriododd â Miss Nansi Owen o Fanordeilo a bu hi'n gymorth a chefnogaeth iddo ar hyd y daith. Mae ganddynt ddwy ferch. Bu'r Ficer yn fugail da a gweithgar yn Llanllwni a Chapel Dewi hyd ei ymddeoliad ym mis Ebrill, 1986, wedi cwblhau 36 o flynyddoedd yn y blaenaf ac un mlynedd ar hugain yng Nghapel Dewi. Talwyd teyrngedau diffuant iddo ef a'i briod gan aelodau'r ddwy eglwys. Cyfeiriwyd at eu gwasanaeth ffyddlon a didwyll. Bu Sam Jones yn gyfaill cywir i'w blwyfolion ac i'r gymdogaeth, yn weinidog da ac arweinydd doeth drwy ei esiampl nodedig.

Dyma ran o'r 'Emyn Teyrnged' iddo, ar ei ymddeoliad, gan J.R. Jones, Talybont:

Deuwn, Arglwydd, gyda'n moliant
Heddiw i dy Eglwys lân,
Er bod hiraeth yn y galon
Y mae diolch ymhob cân.

Melys yma yw cydnabod
Un lafuriodd yn ein plith,
Un â'i gwmni fel yr heulwen,
A'i wasanaeth fel y gwlith.

Er na feddwn sêl ein tadau
Ac er llithro gyda'r oes,
Dal i arwain wnaeth y bugail
Ac angori wrth y groes,
Pan dan gwmwl ein difrawder,
Deuai ryw ysbrydiaeth glir
O awelon Esgairdawe
Ac athroniaeth hen y tir.[29]

Yn ogystal â chyflawni'i waith clerigol, byddai'r Ficer yn barod bob amser i gynorthwyo gyda'r allanolion. Onid oedd wedi dysgu'r grefft o drin pob math o offer yn ei ddyddiau cynnar? Bu profiadau ac arferion bore oes yn fodd i'w gyfoethogi ymhob maes a manteisiodd ar y cyfle i'w hymarfer er lles y gymdeithas.

Anrhydeddwyd yr Hybarch J. Samuel Jones droeon:

| | |
|---|---|
| Deon Gwlad, | 1964-1982 |
| Canon Eglwys Gadeiriol Tyddewi, | 1972 |
| Canghellor Eglwys Gadeiriol Tyddewi, | 1978 |
| Archddiacon Ceredigion, | 1982-1986 |

Nid rhyfedd iddo gyflawni ei weinidogaeth mor urddasol ac yntau wedi'i roi 'ar ben y ffordd' yn gynnar. Mae'r gwreiddiau cyn bwysiced i fod dynol ag ydynt i blanhigyn. Yn ddi-ddadl, bu dylanwad y cartref, yr Ysgol Sul, y capel a'r gymdeithas yn amlwg yn ei ddatblygiad a'i ymroddiad i'w alwedigaeth bwysig. Bu'n mynychu'r Ysgol Sul yng nghapel Esgairdawe hyd 1939, a hynny, wrth gwrs, yn ystod gwyliau'n unig wedi mynd i'r Coleg. Diau iddo fynd i'r oedfaon hefyd, yng nghwmni ei rieni a bod ambell bregeth wedi rhoi symbyliad iddo ar gyfer ei alwedigaeth. Yn ddiweddarach, ymaelododd yn eglwys Llansawel. Roedd, bellach, a'i fryd ar weinidogaethu yn yr Eglwys yng Nghymru.

'Rol ymddeol o'i ofalaethau, mae gan Sam fwy o amser hamdden. Fel ei dad, cymer ddiddordeb mewn barddoni a barddoniaeth. Daw ambell berl o 'Frynheulwen', Heol y Bryn, Llambed, lle mae ef a Nansi wedi ymgartrefu. Mentrodd i fyd cynghanedd ac mae'n amlwg iddo feistroli'r grefft honno,

oherwydd enillodd wobrau am englynion mewn eisteddfodau yma a thraw. Fe'i hyfforddwyd i adrodd hefyd gan ei dad a bu'n cystadlu yn ei ddyddiau cynnar.

Gellir ymfalchïo yn y ffaith fod cynifer o gewri wedi'u codi yn Esgairdawe i gyhoeddi'r Efengyl, a bod rhai ohonynt wedi mentro i bellafoedd byd. Mae'n glod i eglwys wledig fel hon. Eto i gyd, beth am y rhai a fu'n llafurio, megis yn y dirgel, ac na chroniclwyd yr un gair amdanynt erioed? Beth am y tadau a'r mamau gostyngedig a fu'n deyrngar i'w Gwaredwr, yn selog yn eu hymwneud â'r Deml ac yn aberthu'n gyson er mwyn darparu'r ffordd i eraill gael cyfle i efengylu'n gyhoeddus?

Sylweddolwn, heddiw, nad ydym yn deilwng o'u haberth hwy. Roeddent yn foneddigaidd eu hymarweddiad, yn rhoi o'u ceiniogau prin i gynnal yr Achos a'r cyfan yn datguddio llafur cariad. Mae prinder, caledi a chyfyngderau yn tynnu pobl yn nes at ei gilydd, – anghyfleusterau teithio yn ffactor arall. Roedd y capeli'n llawn a dichon ei bod yn haws addoli yn y cyfnod cynnar.

Buddiol yw sôn, o dan y pennawd nesaf, am rai o 'hoelion wyth' un cyfnod – rhai nad â eu henwau byth yn angof.

[1]*Cofiant y Parchedig Evan Jones, Crug-y-bar* gan y Parchedig Jonah Evans, Llansawel, 1883, t. 5.
[2]Ibid, t. 6
[3]Ibid, tt. 7, 8
[4]Ibid, t. 11
[5]Ibid, t. 14
[6]Ibid, t. 22
[7]Ibid, t. 27
[8]Ibid, t. 53
[9]Ibid, tt. 83, 85
[10]*Y Traethodydd,* 1848, t. 373
[11]Ibid, t. 376
[12]Ibid, t. 378
[13]Ibid, t. 380
[14]Ibid, t. 384
[15]*Cerddi Ysgol Llan-y-crwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 115
[16]*Y Bywgraffiadur Cymreig, hyd 1940,* Cymdeithas y Cymrodorion
[17]*Cerddi Ysgol Llan-y-crwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 143
[18]*Trem yn Ôl, neu Oes Gofion,* D. Derwenydd Morgan, 1940, t. 17
[19]Ibid, t. 19
[20]Dogfen Thomas Thomas, Maesteile, drwy law ei wyres, Olwen Davies
[21]*Trem Yn Ôl,* D. Derwenydd Morgan, 1940, t. 44
[22]Ibid, t. 53
[23]Ibid, tt. 83, 84
[24]Ibid, t. 95

[25]O 'Golofn y Beirdd' a ymddangosodd yn y *'Cambrian News'*
[26]Ibid.
[27]*Tant y Galon,* E. Tawe Jones, 1980, t. 45
[28]Ibid, t. 44
[29]Taflen drwy law'r Parchedig E. Tawe Jones